**Eitem ar yr agenda: 7**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 20 MEDI 2004 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | ADOLYGIAD O BENSIYNAU |

1. Sefydlwyd y Ddarpariaeth Bensiynau yn 1997-98 i ymorol am gost uchel amcangyfrifedig ymddeoliadau yn y dyfodol fel mai bychan fyddai'r effaith ar y cyllidebau refeniw yn y dyfodol, gan felly osgoi'r rheidrwydd i gael cynyddiadau annerbyniol yn y dreth ar yr Awdurdodau cyfansoddol mewn un flwyddyn. Y strategaeth a fabwysiadwyd oedd gwneud cyfraniadau o unrhyw danwariant yn y refeniw a fyddai'n digwydd mewn blwyddyn. Fel rhan o'r adolygiad o bensiynau ym Medi 2001 penderfynwyd gwneud cyfraniad o'r refeniw bob blwyddyn i sicrhau y byddai digon o gyllid yn y ddarpariaeth i ymorol am ymrwymiadau yn y dyfodol.

   Fel rhan o drefn gyllidebol 2004-2005 cytunwyd (cofnod 11, 15 Rhagfyr 2003) i hepgor y cyfraniad o £160,000 i'r Ddarpariaeth Bensiynau yn 2004-2005 ac i gynyddu'r cyfraniad £20,000 dros yr 8 mlynedd nesaf. Yr arian yn y Ddarpariaeth Bensiynau ar 31 Mawrth 2004 oedd £1,954,566.

   Gwnaethpwyd adolygiad ar y sefyllfa bresennol yn y Ddarpariaeth Bensiynau ac effaith amcangyfrifedig ymddeoliadau yn y dyfodol. O ran y Taliadau Cymudo, bydd gan yr Awdurdod ddigon o arian yn y Ddarpariaeth Bensiynau i ymorol am yr ymrwymiadau amcangyfrifedig yn y dyfodol, yn amodol ar gyfraniad o £140,000 o'r gyllideb refeniw am yr un mlynedd ar ddeg nesaf.

2. **ARGYMHELLIAD**

   **Bod yr Awdurdod yn gostwng y cyfraniad o'r refeniw i'r Ddarpariaeth Bensiynau i £140,000 y flwyddyn am yr un mlynedd ar ddeg nesaf.**

*KW FINCH*
**Trysorydd**
31 Awst 2004